# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET - DYDD IAU, 12 MAWRTH 2020

## BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer (Cadeirydd) a/ac P.D.Richards

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, J.Hodges a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A R Lockyer yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/2020.

4. **GWASANAETH I OEDOLION, PLANT A PHOBL IFANC - ADRODDIAD PRFFORMIAD Y 3YDD CHWARTER (EBRILL 2019 - RHAGFYR 2019)**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

5. **STRATEGAETH GOFALWYR CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 90 diwrnod ar y Strategaeth Gofalwyr fel y nodir yn Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi gofalwyr Castell-nedd Port Talbot i fynegi eu barn ynghylch pa ymyriadau, gwasanaethau a chymorth lleol fyddai'n eu helpu i gynnal eu rôl gofalu.

Sicrhau bod gan yr awdurdod lleol amrywiaeth cynaliadwy o gefnogaeth o ansawdd da ar gael a fyddai'n diwallu anghenion gofalwyr di-dâl Castell-nedd Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR GYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

7. **POLISI GWAHANU HILLSIDE**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Polisi Gwahanu Hillside fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a chanllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno a sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â'r Polisi Rheoli Ymddygiad sydd newydd ei ddiwygio.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 8. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 9. CYTUNDEB PRYDLES GYDA CHYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT AR GYFER Y GWASANAETHAU GWIRFODDOL O 1 EBRIL 2020 - 31 MAWRTH 2023

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo ymestyn y cytundeb prydles rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot am gyfnod o dri deg chwe mis calendr rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2023 ar delerau ac amodau y mae Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn cytuno arnynt mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi’r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i ymrwymo i gytundeb prydles gyda CGGCNPT ar gyfer 36 Stryd y Berllan, Castell-nedd SA11 1HA fel y gellir parhau i ddefnyddio'r adeilad i ddarparu lle anffurfiol a hygyrch fel y gellir gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **<u>Y GWASANAETH ADNEWYDDU AC ADDASU TAI YN AD-DALU ARIAN Y GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Hepgor swm llawn yr arian grant fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**<u>Rheswm dros y penderfyniad:</u>**

Penderfynwyd hyn er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn arfer ei ddisgresiwn o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Grant Cyfleusterau i'r Anabl (amodau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo neu dalu'r grant) - Caniatâd Cyffredinol 2008.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**